

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol
Llanfihangel-y-Creuddyn, ar Nos Lun 11eg Ionawr, 2016 am 7.30 y.h.**

Presennol:**Cyng. C. Lloyd-Morgan (Cadeirydd)****Cyng. T.A.G. Davies****Cyng. Sh. Edwards****Cyng. E. Lewis****Cyng. A. Evans****Cyng. J. George****Cyng. J.J. Powell****Cyng. H.M. Evans****Cyng. B. Jenkins****Cyng. L.L. Owen****Ymddiheuriadau**

Cyng. R. Jones

Materion Personol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda.

Cymerodd y Cadeirydd hefyd gyfle i atgoffa pawb am brotocol a chyfrinachedd o fewn cyfarfodydd a'r angen i'r Clerc gael gyfle i wneud ei gwaith cyn trafod gydag aelodau'r cyhoedd am faterion a godir mewn cyfarfodydd.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 7fed Rhagfyr, 2015 fel cofnod cywir yn dilyn y newidiadau canlynol:

newid y lleoliad i Neuadd Lisburne Llanafan yn hytrach nag Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.

Ychwanegu enw Cyng. Hefin Evans i gyfarfod gydag Elin Jones ac hefyd newid rhif ffordd o B4343 i B4340 wrth drafod Goryrru yn yr ardal.

Cynigiwyd cywirdeb yn dilyn y newidiadau gan y Cyng. Byron Jenkins ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Materion yn Codi o'r Cofnodion**Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Parhau i gadw ar yr agenda a chysylltu gyda'r Cyngor Sir am ddiweddariad.

Gweithred: Y Clerc i gadw mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir.

Coed ar y B4340 Llechwedd Dyrys

Nid oedd diweddariad i'w adrodd. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i sicrhau bod y sefyllfa yn derbyn sylw.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda Swyddogion ac Uwch Swyddogion y Cyngor Sir.

Dwr ger y Gors

Dim diweddariad. Cytunwyd bod angen i'r Clerc gysylltu gyda Brian Thomas, Swyddog o'r Cyngor Sir am adroddiad o'r cyfarfod safle.

Gweithred: Y Clerc.

Sefyllfa Band Lydan o fewn yr Ardal

Dim manylion pellach ond deallir fod Rhaglen Deledu S4C *Y Byd ar Bedwar* wedi bod mewn cysylltiad ac am ddarlledi stori ar y sefyllfa.

Ffos o Brenan i Lwynbrain

Y Clerc i gysylltu unwaith eto i dynnu sylw'r Cyngor Sir at yr angen i gwblhau'r gwaith yma gan fod y sefyllfa'n gwaethygu gan fod gyrwyr cerbydau yn tynnu mewn i'r ffos heb sylweddoli bod ffos yno ac yn aml yn gorfod cael cymorth i'w tynnu allan o'r lleoliad. Gweithred: Y Clerc.

Safle We

Trafodwyd y trefniadau i sefydlu safle we newydd a chytunwyd i gyfarfod gyda Nigel Callaghan yr wythnos ganlynol i drafod yr anghenion am safle we newydd. Gweithred: Y Clerc i wneud trefniadau perthnasol i gynnal cyfarfod.

Rhiw Dolgwybedig

Mae angen sylw brys ar y ffordd yma gan fod dwr a mwd yn rhedeg allan o'r caeau ac yn erydu'r ffordd gan adael ambell i dwll mawr mewn mannau ar hyd y ffordd a all achosi tipyn o niwed i gerbydau a cherddwyr. Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir.

Coed Ffordd Uchaf Llanafan

Adroddodd Cyng. L. Owen fod yna beiriant torri tyllau wedi bod yn gwneud gwaith ar y ffordd uchaf cyn y Nadolig ond nid oes manylion ar gael o bwy oedd wedi trefnu'r gwaith. Nid yw'r gwaith o fewn safon derbyniol gan fod pridd a mwd wedi cael ei codi a dosbarthu mewn mannau anghyfleus. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi beth oedd pwrpas y gwaith dan sylw. Deallir fod sefyllfa'r coed yn parhau. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir am esboniad a dilyn lan sefyllfa'r coed.

Graffiti

Ni dderbyniwyd ymateb, y Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir
Gweithred: y Clerc.

Bocs Halen yng Nghnwch Coch

Dim manylion pellach wedi derbyn.
Gweithred: Y Clerc i gysylltu ymhellach ar frys i gael bocs newydd yn y lleoliad.

Coeden ger Glanyrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn

Adroddwyd fod y goeden dan sylw wedi cwmpo yn y gwynt.

Materion Cyllidol

Nodwyd fod sefyllfa gyllidol y Cyngor Cymuned fel y nodir: £6,717.44 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,985.01 yn y Cyfrif Cadw. Yn dilyn trafodaethau ac ystyried cyllideb y flwyddyn presennol cytunwyd i gadw swm y praesept am y flwyddyn 2016/17 yn £4,500.

Rhoddion

Derbyniwyd llythyr wrth Drefnydd y Sir, Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion yn gwneud cais am rhodd ariannol gan y Cyngor Bro. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mai dymuniad y Cyngor Bro oedd danfon rhodd o £150 i Glwb Ffermwyr Ifainc Trisant. Cynigiwyd y rhodd gan y Cyng. Lewis Owen ac eiliwyd gan Cyng. John Powell.

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Threfnydd Sir Ceredigion yn cydnabod derbyn ei llythyr ond bod penderfyniad wedi gwneud i gyfrannu i'r Clwb lleol.

Yn dilyn ymholiad gan Ambiwylans Awyr Cymru cytunwyd i ddanfon rhodd o £150 ar ran y Cyngor Bro. Cynigiwyd y taliad gan y Cyng. Lewis Owen ac eiliwyd gan y Cyng. Sharon Edwards.

Cais Cynllunio Newydd

Cais Cynllunio A151044: Ty Capel Cynon, Llanfihangel-y-Creuddyn: Codi Estyniad (Erection of an Extension)

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Cais Cynllunio A151025: Ysgol Gynradd Llanafan. Newid defnydd yr ysgol wag i fewn i lety gosod ar gyfer gwyliau . Dymchwel yr estyniad fflat presennol a chodi estyniad un llawr llai ei maint. Gosod 5 ffenestr do cadwraeth newydd. (Change of use of the existing redundant school into a holiday let accommodation. Demolition of the existing flat room extension and the erection of a smaller single storey extension . Installatin of 5 no new conservation rooflights.)

Datganodd y Cyng. B. Jenkins ddiddordeb wrth drafod yr uchod ac ymadawodd a'r ystafell.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Cais Cynllunio A150921 Plasty Trawscoed, Trawsgoed, Aberystwyth. Trosi adain georgian at ddefnydd preswyl (Conversion of georgian wing into residential use)

Cais Cynllunio A150922 Plasty Trawscoed, Trawsgoed, Aberystwyth. Trosi adain georgian at ddefnydd preswyl (Conversion of georgian wing into residential use)

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r uchod.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Manylion wrth Gyngor Sir Ceredigion fod y ffyrdd canlynol yn mynd i fod ar gau dros dro:

C1022 Cwmnewydion, Abermagwr ar gyfer Gwaith adfer y briffordd o'r 15/2/16-14/3/16
B4343 Ysbyty Ystwyth Adnewyddu polion BT ar y 3/2/16.

Adroddodd y Clerc y derbyniodd ymateb wrth y Cyngor Sir i gais a wnaed nol ym mis Ebrill 2015 am arwyddion ARAF/SLOW ger y fynedfa i Cnwch Coch ar y C1022 ac y

byddid yn ystyried doddi'r arwyddion yma o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Cytunwyd fod angen cadw hwn yn fyw ar yr agenda.

555

UNRHYW FATER ARALL

Materion angen sylw gan y Cyngor Sir

Adroddwyd fod angen sylw ger y bompren ger Awel-y-Bryn, Llanafan. Y tir wrth ymyl peny bont ac i lawr i'r ffordd yn dechrau erydu gyda'r angen i adeiladu wal fechan yna ger y bont.

Nifer fawr o gwteri o fewn yr ardal angen gwacau gan gynnwys yr isod sydd angen sylw brys:

ger Brynhyfryd, Llanafan; ger Bryngibdda, Llanfihangel-y-Creuddyn;

gwteri drwy Cnwch Coch wedi blocio i gyd;

gwteri wrth ymyl Brenan gyda'r gratin wedi codi mewn ambell i fan; ac hefyd

y gratin wedi codi o'r drain archwilio wrth fynedfa Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn sydd wedi gadael twll agored yn y lleoliad.

Gwteri drwy Llanafan angen ei gwaghau i gyd.

Cyfeiriwyd fod cyflwr y ffordd ger Llanerchyroen yn beryglus oherwydd fod dail, dwr a mwd wedi cronni yn enwedig ar y cornelu. Angen i'r Cyngor Sir ddanfôn y Peiriant Glanhau (Sweeper) ar hyd y ffordd yma ar frys.

Nodwyd fod y ffordd o benlon Cwmagwr hyd at Trisant wedi erydu mewn mannau gan ddŵr glaw ac angen sylw.

Cyfeiriwyd fod y Cwlfert o dan y rhewl wrth y nant ger Glanyrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn wedi blocio ac angen sylw brys er mwyn osgoi llifogydd fel a ddiwyddodd yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at sefyllfa y ffordd ger Dolgelynnen, Trawsgoed ble mae dwr a mwd yn cronni ar y ffordd gan nad oes unman i'r dwr i redeg oherwydd lefel y ffordd ac sy'n achosi llifogydd.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw brys i'r materion uchod.

Trafodwyd yr angen am gael goleuadau stryd ychwanegol i'r ardal. Y Clerc i ymchwilio am gostau ar gyfer hyn.

Gweithred: Y Clerc.

Cyfeiriwyd fod nifer o ddraeniau yn yr ardal angen cael eu gwaghau ac hyd yn hyn nid yw nifer ohonynt yn derbyn sylw. Dangoswyd pryder fod gweithwyr y Cyngor Sir yn ymweld a'r ardal i ddelio gyda materion penodol ond nodir nad yw'r gweithwyr hyn yn medru ymdrin â nifer o'r problemau gan nad yw wedi cynnwys ar y gwaith papur cyfarwyddiadau maent hwy yn derbyn gan uwch swyddogion.

Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i nodi rhwystredigaeth am y sefyllfa gan nodi fod nifer o'r materion yn deillio o wybodaeth gan y cyhoedd sy'n pryderu am y sefyllfa.

556

Maes y Felin, Llanafan

Adroddwyd fod trigolion Maes y Felin, Llanafan wedi codi pryder fod yna dri cerbyd wedi parcio yn y stad sy'n cael eu defnyddio fel storffeydd yn hytrach na cherbyd. Mae'r cerbydau yma yn mynd a llefydd parcio prin. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion ac Thai Ceredigion i dynnu sylw at y broblem.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 22ain o Chwefror, am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne, Llanafan.